



ACHOSION

O 13 Gorffennaf ymlaen, mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyfuno profion a chanlyniadau a broseswyd yn labordai GIG Cymru a labordai nad ydynt yn rhai'r GIG yng Nghymru, yr adroddwyd arnynt ar wahân yn flaenorol. Dim ond profion a chanlyniadau labordai GIG Cymru a ddefnyddiwyd yn y datganiad hwn cyn 13 Gorffennaf.

Achosion newydd a awdurdodwyd ac achosion newydd yn ôl dyddiad prawf





Achosion cronnol



ACHOSION FESUL BWRDD IECHYD LLEOL

	Achosion Newydd	Gronnol o Achosion	Gronnol o Achosion yr 100,000 poblogaeth
Prifysgol Aneurin Bevan	0	2,708	456
Prifysgol Betsi Cadwaladr	7	4,336	620
Prifysgol Caerdydd a'r Fro	1	3,061	612
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	1	2,986	666
Hywel Dda	2	1,157	299
Addysgu Powys	1	326	246
Prifysgol Bae Abertawe	5	1,966	504
I'w gadarnhau	1	185	-
Cyfanswm Gymru	18	16,725	530
Preswlydd o'r tu allan i Gymru	0	129	-
Cyfanswm	18	16,854	-




Ffynhonnell: [Lechyd Cyhoeddus Cymru](#)
Data ar 14/07/2020

Daw'r data o wybodaeth reoli a gall fod yn wahanol i'r ystadegau swydddogol

MARWOLAETHAU CRONNOL

Nifer y marwolaethau yn ymwneud â COVID-19, adroddwyd a dyddiad y farwolaeth, yn ôl ffynhonnell: 16 Mawrth i 14 Gorffennaf 2020




Nodyn: Mae [blog y Prif Ystadegydd](#) yn esbonio pam bod data ICC yn wahanol i ddata mwy cynhwysfawr y SYG.

Ffynhonnell: [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) data ar 14/07/2020
[Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) data ar 03/07/2020

Daw'r data o wybodaeth reoli a gall fod yn wahanol i'r ystadegau swyddogol

MARWOLAETHAU NEWYDD

Nifer y marwolaethau yn ymwneud â COVID-19 adroddwyd i lechyd Cyhoeddus Cymru



Ffynhonnell: [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)


Data ar 14/07/2020

Daw'r data o wybodaeth reoli a gall fod yn wahanol i'r ystadegau swyddogol

GWELYAU LLE DARPERIR CYMORTH ANADLU MEWNWTHIOL

Nodyn: [Gweler blog y Prif](#) i gael rhagor o wybodaeth am y derminoleg o ran gwelyau lle darperir cymorth anadlu mewnwthiol.

Nifer y gwelyau lle darperir cymorth anadlu mewnwthiol* yn ôl defnydd



* Mae nifer y gwelyau lle darperir cymorth anadlu mewnwthiol yn cynnwys capasiti ar gyfer ymchwydd dros dro, a gwelyau y tu mewn a'r tu allan i amgylchedd gofal critigol

** Mae'r rhif gwaelodol yn cyfeirio at nifer y gwelyau a oedd ar gael cyn y pandemig COVID-19

Ers Mehefin 2020, mae ysbytai wedi dechrau cau rhywfaint o'r capasiti ychwanegol a oedd wedi'i sefydlu ar gyfer cynydd yn nifer y cleifion yn sgil pandemig COVID-19.

Daw'r data o wybodaeth reoli a gall fod yn wahanol i'r ystadegau swyddogol


Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)

Data ar 15/07/2020

GWELYAU CYFFREDINOL AC ACÍWT

Nodyn: [Gweler blog y Prif Ystadegydd](#) i gael am ragor o wybodaeth ar y adrodd cleifion sy'n gwella.

Nifer y gwelyau cyffredinol ac aciwt yn ôl defnydd



Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)
Data ar 15/07/2020


Ers Mehefin 2020, mae ysbytai wedi dechrau cau rhywfaint o'r capasiti ychwanegol a oedd wedi'i sefydlu ar gyfer cynydd yn nifer y cleifion yn sgil pandemig COVID-19.

Daw'r data o wybodaeth reoli a gall fod yn wahanol i'r ystadegau swyddogol

Derbyniadau newydd

Nodyn: [Gweler blog y Prif Ystadegydd i gael am ragor o wybodaeth ar y adrodd cleifion sy'n gwella.](#)

Derbyniadau dyddiol newydd yn ymwneud â COVID-19



Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)


Data ar 15/07/2020

Daw'r data o wybodaeth reoli a gall fod yn wahanol i'r ystadegau swyddogol

CYFANSWM CLEIFION MEWN YSBYTAI

Cyfanswm cleifion mewn ysbytai


— Pob derbyniad i'r ysbyty



Nodyn: [Gweler blog y Prif Ystadegydd i](#) gael am ragor o wybodaeth ar y adrodd cleifion sy'n gwella.

Cyfanswm cleifion mewn ysbytai

■ Cleifion sydd wedi'u cadarnhau ■ Cleifion posibl ■ Cleifion sy'n gwella




Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)

Data ar 15/07/2020

Daw'r data o wybodaeth reoli a gall fod yn wahanol i'r ystadegau swyddogol

GALWADAU BRYS AM AMBIWLANS

Galwadau brys am ambiwlans




Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

Data ar 14/07/2020

Daw'r data o wybodaeth reoli a gall fod yn wahanol i'r ystadegau swyddogol

GALWADAU 111 A GALW IECHYD CYMRU

Galwadau 111 a Galw lechyd Cymru



Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Data ar 14/07/2020

Daw'r data o wybodaeth reoli a gall fod yn wahanol i'r ystadegau swyddogol

DERBYNIADAU I ADRANNAU DACAB

Nifer y derbyniadau dyddiol i adrannau damweiniau ac achosion brys





Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
Data ar 13/07/2020

Cywirwyd data ar 20 Gorffennaf er mwyn cywiro gwall prosesu.

Daw'r data o wybodaeth reoli a gall fod yn wahanol i'r ystadegau swyddogol

CANRAN ABSENOLDEB STAFF Y GIG AR GYFARTALEDD



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru
Data ar: 13/07/2020

Daw'r data o wybodaeth reoli a gall fod yn wahanol i'r ystadegau swyddogol

NODIADAU

	Nodiadau
Cyffredinol	Daw'r data a gyhoeddir yma o wybodaeth reoli ac maent yn destun newid. Nid yw'r data hyn wedi bod yn destun i'r un prosesau dilysu a gynhaliwyd ar gyfer datganiadau ystadegau swyddogol. Fodd bynnag, fe'u darperir i gefnogi tryloywder a dealltwriaeth o weithgaredd y GIG ar yr adeg hon. Dylai'r ystadegau swyddogol barhau i gael eu hystyried yn ffynhonnell ddata awdurdodol. Mae'n bosibl y bydd data hanesyddol wedi'u diwygio ac na fyddant, felly, yn union yr un fath â'r hyn a gyhoeddwyd o'r blaen.
Achosion	Bu newid i'r amser adrodd ar gyfer profion ac achosion ar 9/10 Ebrill, felly yw'r ffigurau ar gyfer 8 Ebrill yn adlewyrchu 30 awr o weithgarwch ar y dyddiad hwnnw. Cynhwysant achosion newydd awdurdodwyd nifer o achosion cadarnhawyd ar y dyddiad y cafodd eu canlyniadau eu hadrodd i lechyd Cyhoeddus Cymru, labordai GIG Cymru yn unig. Cynhwysant achosion newydd yn ôl dyddiad prawf nifer yr unigolion sydd wedi cael canlyniad prawf COVID-19 positif. Cyfeiria pob dyddiad at ddyddiad prawf. Dyma'r dyddiad cymerwyd y sampl gan y claf. Gan y gall yr amser a gymerir i brofi samplau ac adrodd ar ganlyniadau amrywio, gellir dosbarthu achosion newydd yr adroddir arnynt yn ddyddiol ar draws ystod o ddyddiadau sampl. O 13 Gorffennaf ymlaen, mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyfuno profion a chanlyniadau a broseswyd yn labordai GIG Cymru a labordai nad ydynt yn rhai'r GIG yng Nghymru, yr adroddwyd arnynt ar wahân yn flaenorol. Dim ond profion a chanlyniadau labordai GIG Cymru a ddefnyddiwyd yn y datganiad hwn cyn 13 Gorffennaf. Mae profion sy'n cael eu prosesu mewn labordai nad ydynt yn rhan o GIG Cymru wedi'u cynnwys yn y cyfanswm cronrus, ynghyd ag achosion newydd a awdurdodwyd o 1pm ar 13 Gorffennaf. Nid yw data hanesyddol ar gyfer achosion newydd a awdurdodwyd wedi cael ei ddiwygio ac mae'n parhau i fod yn gofnod o nifer yr achosion y mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn adrodd eu bod yn gywir ar 1pm y diwrnod blaenorol. Mae profion y tu allan i'r GIG yng Nghymru hefyd wedi'u cynnwys mewn achosion newydd yn ôl dyddiad y prawf, ac mae'r rhain wedi'u diwygio'n hanesyddol. Gan fod canlyniadau profion yn cymryd amser i ddod yn ôl, weithiau tridiau, mae tridiau olaf achosion newydd yn ôl dyddiad y prawf wedi'u heithrio. Dydy'r data hwn dim yn cynnwys 59,343 profion o labordai tu allan i GIG Cymru, o'r rhain adroddwyd bod 3 o'r canlyniadau yn gadarnhaol yn ystod y 24 awr ddiwethaf, gan roi nifer cyfanswm cronrol o brofion positif o 1,000. Mae profion a broseswyd mewn labordai heblaw am rai GIG Cymru yn cynnwys profion ar breswylwyr Cymru a wnaed mewn canolfannau profi yn Lloegr, pecynnau profi gartref a rhai canolfannau profi yng Nghymru. Mae ICC wrthi'n adolygu sut mae data o labordai GIG Cymru a labordai heblaw am rai GIG Cymru yn cysylltu â'i gilydd. Oherwydd problem dechnegol ar 19 Mehefin 2020, ni chafodd pob achos ei gyhoeddi gan lechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r broblem dechnegol wedi'i datrys ac mae ffigurau na chyhoeddwyd gan ICC ar 19 Mehefin 2020 wedi'u cynnwys yn ffigurau 22 Mehefin 2020. Gweler dangosfwrdd Llywodraeth y DU i gael gwybodaeth am achosion ar lefel y DU. Ar gyfer achosion cronrus fesul 100,000 poplogaeth yn ôl Bwrdd lechyd Lleol, daw'r data poblogaeth o amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019.

NODIADAU

	Nodiadau
Marwolaethau newydd	Mae marwolaethau newydd a adroddwyd wedi'u seilio ar y rheini a adroddir am 2pm gan Iechyd Cyhoeddus Cymru bob dydd. Mae'r dyddiad marwolaeth wedi'i seilio ar y diwrnod y digwyddodd y farwolaeth. Gan fod y dyddiad marwolaethau yn cael ei ôl-ddiweddaru wedi i farwolaethau gael eu hadrodd, mae'r tridiau diwethaf wedi'u heithrio. Mae hyn yn cynnwys marwolaethau unigolion a gafodd ganlyniad positif mewn prawf labordy am COVID-19. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys unigolion a fu farw o bosibl yn sgil COVID-19 ond na chafodd gadarnhad prawf labordy. Digwyddodd y rhan fwyaf o'r marwolaethau a gofnodwyd yma mewn ysbytai, ond digwyddodd cyfran ohonynt mewn lleoliadau eraill. Mae blog y Prif Ystadegydd yn esbonio pam bod data ICC yn wahanol i ddata mwy cynhwysfawr y SYG. Gweler dangosfwrdd Llywodraeth y DU i gael gwybodaeth am marwolaethau ar lefel y DU.
Marwolaethau Cronnol	Mae marwolaethau newydd a adroddwyd wedi'u seilio ar y rheini a adroddir am 2pm gan Iechyd Cyhoeddus Cymru bob dydd. Mae'r dyddiad marwolaeth wedi'i seilio ar y diwrnod y digwyddodd y farwolaeth. Gan fod y dyddiad marwolaethau yn cael ei ôl-ddiweddaru wedi i farwolaethau gael eu hadrodd, mae'r tridiau diwethaf wedi'u heithrio. Mae hyn yn cynnwys marwolaethau unigolion a gafodd ganlyniad positif mewn prawf labordy am COVID-19. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys unigolion a fu farw o bosibl yn sgil COVID-19 ond na chafodd gadarnhad prawf labordy. Digwyddodd y rhan fwyaf o'r marwolaethau a gofnodwyd yma mewn ysbytai, ond digwyddodd cyfran ohonynt mewn lleoliadau eraill. Mae blog y Prif Ystadegydd yn esbonio pam bod data ICC yn wahanol i ddata mwy cynhwysfawr y SYG. Mae'r ffigurau ar gyfer marwolaethau yn cynnwys marwolaethau a oedd wedi'u cofrestru erbyn y dyddiad a nodwyd yn unig, felly gallant fod yn amcangyfrif rhy isel oherwydd oedi cofrestru. Gellir ddod o hyd i fwy o wybodaeth am oedi cofrestru ar wefan y SYG trwy'r ddolen isod.
Gwelyau lle darperir cymorth anadlu mewnwithol; Gwelyau cyffredinol ac aciwt a Cyfanswm cleifion mewn ysbytai a derbyniadau newydd	Yn cynnwys data o ysbytai aciwt o 23 Mawrth 2020, ysbytai maes o 20 Ebrill 2020 ac ysbytai cymunedol o 23 Ebrill 2020. Gweler blog y Prif Ystadegydd am ragor o wybodaeth. Cleifion sy'n gwella yw cleifion sydd wedi profi'n bositif am COVID ac a oedd wedi bod yn yr ysbyty am 14+ diwrnod heb unrhyw arwyddion na symptomau, ond sy'n dal yn yr ysbyty ar lwybr triniaeth COVID, yn aml ar gyfer adsefydlu. Gofynnwyd i'r byrddau iechyd wneud y newid o 26 Mai 2020. Gwnaeth un bwrdd iechyd y newid ar 22 Mai, yn cynnwys cleifion sy'n gwella yn eu rhifau sydd wedi'u cadarnhau ar gyfer COVID tan 25 Mai. Gwnaeth un bwrdd iechyd y newid ar 8 Mehefin. Ers Mehefin 2020, mae ysbytai wedi dechrau cau rhywfaint o'r capasiti ychwanegol a oedd wedi'i sefydlu ar gyfer cynydd yn nifer y cleifion yn sgil pandemig COVID-19. Gweler dangosfwrdd Llywodraeth y DU i gael gwybodaeth am gofal iechyd ar lefel y DU. Nodwch bod y data gofal iechyd a gyflwynwyd yn nangosfwrdd y DU yn wahanol i'r cyhoeddiad hwn. Mae dangosfwrdd y DU yn cynnwys data ar gyfer ysbytai aciwt i alluogi dwyn gwell cymhariaeth â gwledydd eraill, ond mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys data o ysbytai aciwt, cymunedol a maes.

NODIADAU

	Nodiadau
Gwelyau lle darperir cymorth anadlu mewnwthiol	Mae nifer y gwelyau lle darperir cymorth anadlu mewnwthiol yn cynnwys capasiti ar gyfer ymchwydd dros dro, a gwelyau y tu mewn a'r tu allan i amgylchedd gofal Critigol. Fel arfer mae 152 gwelyau gofal critigol yng Nghymru. Gweler blog y Prif i gael rhagor o wybodaeth am y derminoleg o ran gwelyau lle darperir cymorth anadlu mewnwthiol. Cynhwysir cleifion COVID-19: cleifion wedi'u diffinio fel cleifion posibl o COVID-19, cleifion sydd wedi'u cadarnhau, a chleifion sy'n gwella. O 22 Mai, o ganlyniad i newid yn y dulliau adrodd, cafodd rhai cleifion yng Nghymru eu hailddosbarthu fel cleifion COVID. Cyn y dyddiad hwn, cafodd rhai cleifion a oedd wedi profi'n bositif am COVID ac a oedd wedi bod yn yr ysbyty am 14 diwrnod ac wedi gwella, eu cofnodi fel cleifion heb COVID
Gwelyau cyffredinol ac aciwt	Cynhwysir cleifion COVID-19: cleifion wedi'u diffinio fel cleifion posibl o COVID-19, cleifion sydd wedi'u cadarnhau, a chleifion sy'n gwella. O 22 Mai, o ganlyniad i newid yn y dulliau adrodd, cafodd rhai cleifion yng Nghymru eu hailddosbarthu fel cleifion COVID. Cyn y dyddiad hwn, cafodd rhai cleifion a oedd wedi profi'n bositif am COVID ac a oedd wedi bod yn yr ysbyty am 14 diwrnod ac wedi gwella, eu cofnodi fel cleifion heb COVID. Roedd dau ysbyty yn flaenorol yn adrodd ffigurau ar gyfer gwelyau iechyd meddwl ond o 11 Gorffennaf nid yw gwelyau iechyd meddwl yn cael eu cynnwys yn y data.
Derbyniadau newydd	Nifer y cleifion sydd wedi'u derbyn i'r ysbyty gyda COVID-19, mewn ysbytai aciwt ac ysbytai maes O 29 Mehefin 2020, gofynnwyd i'r byrddau iechyd beidio â chynnwys cleifion oedd yn mynd i'r ysbyty ar gyfer triniaethau dewisol yn y ffigurau ar gyfer derbyniadau'n gysylltiedig a covid-19, gan fod y rhain yn chwyddo nifer yr achosion tybiedig yn yr ysbyty ar adeg yr adroddiad. Pe bai cleifion wedyn yn cael canlyniad positif i brawf yn yr ysbyty, byddent yn cael eu cynnwys yn y ffigurau ar gyfer cleifion covid-19. Gofynnwyd i'r byrddau iechyd hefyd beidio ag adrodd am drosglwyddiadau rhwng ysbytai fel achosion ar wahân o dderbyn a rhyddhau cleifion.
Cyfanswm cleifion mewn ysbytai	Cynhwysir cleifion COVID-19: cleifion wedi'u diffinio fel cleifion posibl o COVID-19, cleifion sydd wedi'u cadarnhau, a chleifion sy'n gwella.
Galwadau brys am ambiwalans	Nifer y digwyddiadau yng Nghymru y bu adnoddau WAST, nid yw'r ffigurau'n cynnwys digwyddiadau yn Lloegr
Galwadau 111 a galw iechyd cymru	Mae'r data hwn yn cynnwys galwadau i 111 a hefyd Galw Iechyd Cymru a gafodd eu hateb neu eu gadael ar ôl 60 eiliad. Mae'r data hwn hefyd yn wahanol i Ddangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nid yw hwnnw ond yn cynnwys galwadau a gofnodwyd yn eu system ar gyfer protocol penodol ac nid yw'n cynnwys pob galwr a oedd yn dymuno siarad â gweithredwr.
Derbyniadau i adrannau dacab	Gan gynnwys derbyniadau i ysbytai Mawr a Bach, drwy bob dull cludo, ar draws pob bwrdd iechyd lleol. Nid yw rhai unedau bach Damweiniau ac Argyfwng yn gallu cyflwyno data dyddiol, felly mae'n debyg bod tangyfrif bach yn y cyfanswm sy'n mynychu.

NODIADAU

	Nodiadau
Absenoldeb staff y GIG	Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys data ar gyfer pob sefydliad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru ond nid yw'n cynnwys data ar gyfer Bae Abertawe tan 20 Mai (gan nad oeddynt yn gallu darparu data ar yr un sail â'r sefydliadau eraill hyd at y dyddiad hwnnw). Mae cywirdeb data Betsi Cadwaladr wedi gwella wedi iddynt newid eu dull o gasglu data o 8 Mehefin ymlaen. O ganlyniad mae gostyngiad wedi bod yng nghyfanswm nifer y staff yr adroddwyd eu bod yn absennol a gostyngiad yn nifer y staff y mae eu habsenoldeb yn gysylltiedig â COVID-19. O 22 Meh, ymlaen mae Caerdydd a'r Fro yn cyflwyno eu data ar absenoldebau staff y GIG unwaith yr wythnos. Mae'r data hyn yn rhoi cipolwg ar y sefyllfa ar ddydd Llun. Cyn y dyddiad hwn, dim ond data o ddydd Llun i ddydd Gwener a ddarparwyd ganddynt, yn hytrach na data ar gyfer pob diwrnod. Felly, roedd y cyfartaledd wythnosol yn seiliedig ar ddata o ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig. Dim ond staff cofrestredig sydd wedi'u cynnwys yn y categori nyrsio a bydwreigiaeth. Nid yw canran y staff sy'n hunanynysu o reidrwydd yn adlewyrchu nifer y staff sy'n absennol o'r gwaith. Er enghraifft, bydd rhai aelodau o staff yn gallu parhau i weithio gartref.